

BookTrust Storytime

# Amser Stori BookTrust 2024-25

## Adroddiad canfyddiadau gwerthuso

BookTrust
Getting children reading

**Cysylltwch â ni:**
queries@booktrust.org.uk

**booktrust.org.uk**
**Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol:** @BookTrust

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Rhif elusen: 313343

# Diolch

Hoffem **ddiolch o galon** i holl bartneriaid BookTrust sy'n gweithio gyda ni ar Amser Stori BookTrust:

- Y Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth, Cymdeithas yr Uwch-lyfrgellwyr Plant ac Addysg a Libraries Connected am eu cefnogaeth nhw a'u haelodau i ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd.
- Staff mewn llyfrgelloedd a lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill sydd wedi partneru â ni eleni, gan ddefnyddio eu harbenigedd a'u brwdfrydedd i gefnogi ein cenhadaeth gyffredin o sicrhau bod pob plentyn yn elwa o ddarllen.
- Y cyhoeddwyr, yr awduron a'r darlunwyr sy'n hollbwysig i'n gwaith o ysbrydoli plant a theuluoedd ar eu teithiau darllen.

Hefyd, hoffem gydnabod a diolch i'r sefydliadau sy'n cefnogi ein gwaith ar Amser Stori BookTrust yn hael:

- Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Sefydliad Garfield Weston
- Mercury
- Sefydliad Elizabeth Frankland Moore a Star
- Sefydliad Eranda Rothschild



"Rwyf i wrth fy modd bod ein *Ten Little Ducklings* wedi ennill Gwobr Amser Stori BookTrust. Fel awdur plant a Therapydd Iaith a Lleferydd, mae'r prosiect hwn wir yn agos at fy nghalon ac yn teimlo'n angenrheidiol ac yn eithriadol o bwysig. Mae llyfrgelloedd (a'r llyfrgellwyr profiadol, brwdfrydig sy'n gweithio ynddynt) yn aml yn ganolog i gymunedau lleol, ac yn hanfodol i'n plant, ein teuluoedd a'n cymdogaethau.

I mi a fy nheulu, mae'r llyfrgell yn lle i alw i mewn iddo ar y ffordd adref o'r ysgol, yn rhywle i fynd i wneud ychydig o liwio, man i ymuno â chlwb Lego a chyfarfod â ffrindiau ... a, bob amser, y lle i fynd i gael llyfrau!

Mae llyfrgelloedd yn hyrwyddo darllen, dysgu a chreadigrwydd.

Maent yn rhoi mynediad i gynifer o bobl efallai na fyddai ganddynt fynediad atynt fel arall ac maent yn annog pawb i fod yn ddarllenwr. Hoffwn ddiolch i'r holl lyfrgellwyr medrus a oedd yn rhan o raglen Amser Stori BookTrust, a rannodd ein llyfrau ac a ddaeth â'n straeon yn fyw i gynifer o blant a theuluoedd. Diolch."

**Lucy Rowland, awdur *Ten Little Ducklings*, enillydd Gwobr Amser Stori 2025**

# Cynnwys


1. **Crynodeb Gweithredol** .......... 4
2. **Cyflwyniad** .......... 8
   - 2.1. Gwaith blynyddoedd cynnar BookTrust .......... 8
   - 2.2. Ynglŷn ag Amser Stori BookTrust .......... 10
3. **Amser Stori BookTrust: y cyd-destun** .......... 12
4. **Canfyddiadau gwerthuso allweddol o Amser Stori BookTrust 2024-25** .......... 14
   - 4.1. Cyrhaeddiad cyffredinol .......... 14
   - 4.2. Gweithio partneriaeth .......... 14
   - 4.3. Tybiaethau partneriaid o Amser Stori BookTrust yn gyffredinol .......... 15
   - 4.4. Safbwyntiau partneriaid ar ein hadnoddau digidol .......... 16
5. **Beth nesaf i Amser Stori BookTrust?** .......... 18
6. **Ein dull dysgu** .......... 21
7. **Cyfeiriadau** .......... 22

# 1. Crynodeb gweithredol

**Mae'r adroddiad hwn yn rhannu gwybodaeth werthuso allweddol o Amser Stori BookTrust yn 2024-25.**

## Ynglŷn ag Amser Stori BookTrust a'n gwaith blynyddoedd cynnar ehangach

Amser Stori BookTrust yw ein rhaglen llyfrgelloedd genedlaethol sydd â'r nod o gynorthwyo teuluoedd â phlant 0–5 oed ddatblygu arferion darllen cadarnhaol, trwy rannu straeon difyr, mewn llyfrgelloedd a gartref. Mae'n elfen graidd o bortffolio BookTrust o raglenni sy'n helpu teuluoedd blynyddoedd cynnar i ymwreiddio darllen mewn bywyd bob dydd.



Mae darllen yn y blynyddoedd cynnar yn cynnig **manteision dwys ac eang** a all gael effaith ar unwaith a gydol oes ar fywydau plant. Mae mwynhau darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar yn bwysig ar gyfer meithrin arferion darllen gydol oes. Trwy annog profiadau darllen cynnar cadarnhaol, nod Amser Stori BookTrust yw dod â hudoliaeth llyfrau a rhannu straeon i amrywiaeth eang o blant a theuluoedd.

Yn BookTrust, rydym yn blaenoriaethu darllen ar gyfer pleser yn y blynyddoedd cynnar i bob teulu, â phwyslais penodol ar y rhai o aelwydydd incwm isel sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i ddarllen, ac a allai gael mwy o fudd o gymorth ychwanegol. Ar gyfer Amser Stori BookTrust, rydym yn gwneud cynnig estynedig i lyfrgelloedd mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.


## Amser Stori BookTrust: y cyd-destun

Mae dod â manteision darllen i deuluoedd yn hanfodol o gofio maint yr heriau sy'n wynebu plant yn y DU heddiw. Nid yn unig y mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yn cynyddu,[1] ond ceir bwlch sy'n tyfu hefyd rhwng canlyniadau plant sy'n cael eu magu mewn teuluoedd ag incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog.

Mae staff llyfrgelloedd yn poeni am y dirywiad i ddarllen plant ar gyfer mwynhad (99%) ac maent hefyd yn mynegi pryderon cryf am oedi iaith a lleferydd (93%), llesiant ac iechyd meddwl plant (95%) ac oed o ran datblygiad emosiynol-gymdeithasol (87%).

**Mae BookTrust a'n partneriaid blynyddoedd cynnar yn gwybod y gall darllen a rhannu straeon fod yn un rhan o'r ateb i'r problemau hyn. Fodd bynnag, mae gormod o blant yn methu manteision trawsnewidiol darllen.** Mae mwynhau darllen yn ystod plentyndod yn dirywio, gan adael Lloegr yn y traean isaf o wledydd o ran mwynhau darllen yn ystod plentyndod.[3]

O'n gwaith gyda llyfrgelloedd a phartneriaid blynyddoedd cynnar eraill, rydym hefyd yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu sefydliadau a rhwydweithiau sy'n gweithio i gynorthwyo teuluoedd blynyddoedd cynnar gan gynnwys diffyg ymgysylltiad â gwasanaethau ac effaith torri cyllidebau.



**Mae chwarter rhieni/gofalwyr** yn meddwl bod darllen gyda'u plant ifanc yn heriol.

Er bod **95%** o deuluoedd (o aelwydydd incwm isel) yn gwybod ei bod yn bwysig darllen gyda'u plant, **dim ond 42% o blant 0-7 mlwydd oed** sy'n cael stori amser gwely.

Ffynhonnell: Arolwg Teulu BookTrust (2022)[2]

# Canfyddiadau gwerthuso allweddol o Amser Stori BookTrust 2024-25

Mae data gwerthuso yn yr adroddiad hwn yn manteisio ar ymatebion arolwg (123), adborth ansoddol gan ein partneriaid darparu a data o raglenni eraill.

## Cyrhaeddiad cyffredinol

**Cymerodd 2,568 o lyfrgelloedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ran yn Amser Stori BookTrust 2024-25. Mae hyn yn cyfateb i tua 90% o lyfrgelloedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.**

Rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm o dros 60,000 o blant wedi ymgysylltu ag Amser Stori BookTrust eleni.

O'r plant hyn, rydym yn amcangyfrif:

- bod 34% yn newydd i'r llyfrgell neu leoliad
- bod 51% o aelwydydd incwm is
- bod 59% wedi dychwelyd i'r llyfrgell neu leoliad ar ôl eu hymweliad cyntaf

**Ymgysylltodd dros**
**60,000**
**o blant dan bump oed ag Amser Stori BookTrust eleni**



**34%** yn newydd i'r llyfrgell neu leoliad

**59%** wedi dychwelyd i'r llyfrgell neu leoliad ar ôl eu hymweliad cyntaf

**51%** o aelwydydd incwm is



## Gweithio partneriaeth

**Bwriedir i Amser Stori BookTrust a'n portffolio ehangach o raglenni blynyddoedd cynnar gefnogi cysylltiadau cymunedol a dulliau amlasiantaeth o ymdrin â darllen.** Gweithiodd 83% o bartneriaid Amser Stori BookTrust gyda sefydliadau eraill i annog teuluoedd i ymgysylltu â'r rhaglen eleni. Cefnogodd Amser Stori BookTrust gysylltiadau rhwng llyfrgelloedd a Hybiau Teuluol, canolfannau plant neu ganolfannau teuluol, timau Cymorth Cynnar a chanolfannau Cychwyn Cadarn, weithiau'n rhan o strategaethau darllen a llythrennedd blynyddoedd cynnar awdurdod lleol cyfan.

Mae ein partneriaid yn cydnabod bod darllen ar y cyd cynnar yn cynorthwyo canlyniadau datblygiad, iechyd ac addysg plant.

## Tybiaethau partneriaid o Amser Stori BookTrust

**Mae mwyafrif y llyfrgelloedd a phartneriaid eraill yn ein gwerthusiad yn dweud bod Amser Stori BookTrust yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu gwaith a'u cymunedau:**

- dywedodd 84% bod y rhaglen wedi helpu i gefnogi gwaith eu llyfrgell gyda phlant dan bump oed
- dywedodd 77% bod y rhaglen wedi helpu teuluoedd blynyddoedd cynnar i ddatblygu trefn darllen ar y cyd
- dywedodd 70% wrthym fod y rhaglen yn effeithiol o ran cefnogi teuluoedd a oedd yn newydd i'r llyfrgell neu na fyddent fel rheol yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell, i gael profiad cadarnhaol

## Beth nesaf i Amser Stori BookTrust?

Mae BookTrust wedi ymrwymo i Amser Stori BookTrust ac mae'n dal i fod yn rhan allweddol i'n portffolio o raglenni blynyddoedd cynnar.

Mae BookTrust wedi ymrwymo i ddysgu a datblygiad parhaus ein gwaith i gryfhau ein cefnogaeth i deuluoedd a'n partneriaid. Mae adborth partneriaid yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio ein gwaith.

Drwy'r gwerthusiad hwn, rydym wedi clywed adborth gwerthfawr gan ein partneriaid ar fodel, adnoddau a gwobr Amser Stori BookTrust. Byddwn yn adolygu'r rhaglen yn unol ag adborth partneriaid, gyda'r nod o ailwampio'r rhaglen ar gyfer hydref 2026.

**Mae BookTrust yn edrych ymlaen at weithio gyda llyfrgelloedd a lleoliadau eraill ar Amser Stori BookTrust y flwyddyn nesaf, a thu hwnt!**

# 2. Cyflwyniad

## 2.1 Gwaith blynyddoedd cynnar BookTrust

**Mae cael teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd o'r eiliadau cyntaf yn cynnig manteision hirdymor uniongyrchol i blant a'r rhai sy'n darllen gyda nhw, ac mae'n hanfodol i ddatblygu arferion darllen tymor hwy mewn teuluoedd.**

Yn BookTrust, rydym yn blaenoriaethu darllen ar gyfer pleser yn y blynyddoedd cynnar, gan gydnabod ei swyddogaeth hollbwysig i feithrin arferion darllen gydol oes.

Mae darllen ar y cyd cynnar yn cynorthwyo'r broses o greu cysylltiad rhwng plant a'u rhieni/gofalwyr ac yn ysgogi datblygiad yr ymennydd. Gall wella iechyd meddwl plant a rhieni a helpu plant i gyrraedd nodau datblygiad cynnar.

Mae hwn yn gyfnod anodd i deuluoedd, â bylchau sy'n ehangu rhwng canlyniadau plant o deuluoedd incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog. Mae darllen yn un ffordd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol, a'n huchelgais yw y gall pob plentyn a theulu ddarllen yn rheolaidd, ac o ddewis.

Yn BookTrust, rydym yn mabwysiadu dull newid ymddygiad wedi'i hysbysu gan dystiolaeth, gan ddylunio a datblygu rhaglenni gyda'r teuluoedd a'r partneriaid yr ydym yn eu cynorthwyo.

Rydym yn canolbwyntio ein cymorth ar deuluoedd ag incwm isel[5] a theuluoedd a phlant mewn gofal maeth, gofal gan berthynas, ac sydd wedi'u mabwysiadu, gan fod y dystiolaeth yn eglur bod y teuluoedd hyn yn wynebu rhwystrau ychwanegol ac mai nhw fyddai'n cael y budd mwyaf o fanteision trawsnewidiol darllen.

**Gweler diwedd yr adroddiad am ragor o fanylion am ein dull dysgu.**



**Mae darllen yn cynorthwyo plant i:**

- Oresgyn anfantais
- Datblygu llesiant gwell, sgiliau cymdeithasol a chysylltiadau cryf
- Cyrraedd cerrig milltir iaith a lleferydd a gwneud yn well yn yr ysgol
- Datblygu dychymyg, empathi a chreadigrwydd




**Ar hyn o bryd, mae BookTrust yn cyrraedd tua 1.1 miliwn o blant (0-7 oed) ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, drwy ein cyfres o raglenni blynyddoedd cynnar.**

**Ffigur 1:** Portffolio blynyddoedd cynnar BookTrust (dangosir rhaglenni Lloegr yn unig)



Rydym bob amser yn ceisio dysgu gan ein partneriaid darparu mewn llyfrgelloedd, Hybiau Teuluol, addysg blynyddoedd cynnar, gwasanaethau iechyd a lleoliadau eraill am ba mor effeithiol yw rhaglenni BookTrust o ran cefnogi eu blaenoriaethau ar gyfer teuluoedd yn eu cymunedau lleol.

## 2.2 Ynglŷn ag Amser Stori BookTrust

**Amser Stori BookTrust yw ein rhaglen lyfrgelloedd genedlaethol ac mae'n rhan graidd o'n portffolio i helpu teuluoedd ymwreiddio darllen mewn bywyd bob dydd, o'r blynyddoedd cynharaf.** Bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, bwriedir Amser Stori BookTrust ar gyfer teuluoedd â phlant 0-5 oed gael profiad o rannu straeon difyr sy'n ysbrydoli mewn llyfrgelloedd a gartref.

Trwy annog profiadau darllen cynnar cadarnhaol, nod y rhaglen yw dod â hudoliaeth llyfrau a rhannu straeon i amrywiaeth eang o blant a theuluoedd.

Mae Amser Stori BookTrust ar gael i bob teulu blynyddoedd cynnar. Mae wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell fel rheol, â phwyslais penodol ar blant o aelwydydd incwm is.

Mae Amser Stori BookTrust yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau ffisegol a digidol i gynorthwyo llyfrgelloedd yn eu gwaith o greu profiadau darllen difyr, boddhaol a chynhwysol, gyda'r nod o arwain at ymweliadau dro ar ôl tro a darllen gartref.

**Ffigur 2:** Safbwyntiau partneriaid BookTrust ar effeithiolrwydd ein rhaglenni blynyddoedd cynnar

**Fe wnaethom ofyn i'n partneriaid blynyddoedd cynnar pa mor effeithiol oedd ein hadnoddau o ran cefnogi'r agweddau canlynol ar eu gwaith:**

- **95%** Plant yn darllen ar gyfer mwynhad
- **95%** Llythrennedd plant
- **93%** Creu cysylltiad rhwng plant a rhieni/gofalwyr
- **92%** Datblygiad iaith a lleferydd plant
- **80%** Datblygiad emosiynol-gymdeithasol plant
- **71%** Iechyd meddwl a llesiant rhieni/gofalwyr
- **90%** Cynorthwyo teuluoedd o aelwydydd incwm isel i ddarllen
- **80%** Iechyd meddwl a llesiant plant

Sylfaen: Partneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust y mae pob un o'r meysydd hyn yn flaenoriaeth iddynt (565-577 fesul datganiad), Arolwg Partneriaid BookTrust 2025.

Rydym yn darparu cynnig estynedig i lyfrgelloedd mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.

Mae'r rhaglen yn dathlu ac yn sicrhau mynediad at y llyfrau plant newydd gorau ar gyfer plant dan bump oed ac yn cynorthwyo modelu ac adrodd straeon grŵp rhyngweithiol.

Dyluniwyd Amser Stori BookTrust ar y cyd â llyfrgelloedd, teuluoedd, awdurdodau lleol a sefydliadau gan gynnwys **Libraries Connected**, yr **ASCEL**, a **CILIP**.

Mae'r rhaglen yn adeiladu ar berthynas hirhoedlog ac a werthfawrogir BookTrust gyda llyfrgelloedd, yn ogystal â'n rhwydwaith o bartneriaid blynyddoedd cynnar ehangach sy'n cydweithio i gynorthwyo teuluoedd i gael mynediad at Amser Stori BookTrust ac elwa ohono.

### Pa wahaniaeth all sesiynau adrodd straeon ei wneud?

Gall modelu ddangos i rieni/gofalwyr sut y gall darllen fod yn rhywbeth y mae **eu plentyn yn ei fwynhau.**

**Mae adroddwr straeon y gellir uniaethu ag ef ac ymddiried ynddo** a **gweld teuluoedd eraill yn ymgysylltu** yn cynorthwyo rhieni/gofalwyr i roi cynnig arni eu hunain ac yn datblygu ffydd ym mhwysigrwydd darllen.

Mae cael **esboniad neu arddangosiad** yn rhoi syniadau i rieni/gofalwyr roi cynnig arnynt gartref.

Tua
**90%**
o lyfrgelloedd cyhoeddus wedi cymryd rhan yn Amser Stori BookTrust yn 24-25 (cyfanswm o 2,568).



**47%**
o deuluoedd o aelwydydd incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi'u cofrestru â llyfrgell gyhoeddus.

Arolwg Teuluoedd BookTrust 2022 (yn seiliedig ar 1,174 o rieni/gofalwyr plant un i bedir oed mewn aelwydydd incwm isel).

# 3. Amser Stori BookTrust: y cyd-destun


**Mae dod â manteision darllen i deuluoedd yn hollbwysig, o gofio maint yr heriau sy'n wynebu plant yn y DU heddiw.** Nid yn unig y mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yn cynyddu,[6] ond ceir bwlch sy'n ehangu o ran canlyniadau rhwng plant sy'n cael eu magu mewn teuluoedd ag incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog.[7,8]

Mae corff eang o dystiolaeth yn dangos bod darllen yn elfen allweddol o roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant. Fodd bynnag, mae gormod o blant yn methu ei fuddion trawsnewidiol. Mae ein gwaith ymchwil yn dynodi mai dim ond 42% o blant 0-7 oed mewn aelwydydd incwm isel sy'n cael stori amser gwely a bod chwarter y rhieni ar incwm isel yn ei chael yn anodd darllen gyda'u plant ifanc.[9]

Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n mwynhau darllen yn tueddu i ddarllen o ddewis yn amlach, am fwy o amser, ac yn dod yn ddarllenwyr mwy medrus.10 Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol yn dangos bod mwynhad plant o ddarllen yn dirywio.[11,12] Mae bron pob un o'n partneriaid llyfrgell yn poeni am y dirywiad i ddarllen plant ar gyfer mwynhad (99%) a chyrhaeddiad darllen yn y DU (98%).

**Ffigur 3:** Pryderon a adroddwyd gan staff llyfrgelloedd

**% y staff llyfrgelloedd y mae'r canlynol yn peri rhywfaint/llawer o bryder iddynt:**




Sylfaen: Pob partner llyfrgell (133)

Maent hefyd yn poeni'n fawr am amrywiaeth o heriau eraill sy'n wynebu teuluoedd yn eu cymunedau, gan gynnwys oedi i ddatblygiad iaith a lleferydd ac emosiynol-gymdeithasol, a llesiant ac iechyd meddwl teuluoedd.


Mae BookTrust a'n partneriaid blynyddoedd cynnar yn gwybod y gall darllen a rhannu straeon fod yn un rhan o'r ateb i'r problemau hyn.

O'n gwaith ymchwil helaeth gyda theuluoedd, rydym yn deall y rhwystrau a'r heriau y mae llawer o deuluoedd yn eu hwynebu i ddarllen a rhannu straeon gyda'u plant, fel y mae llawer o'n partneriaid llyfrgell.

Fe wnaethom holi staff llyfrgelloedd am yr heriau sy'n atal teuluoedd rhag darllen ar y cyd yn naw o bob deg yn teimlo bod gan rieni/gofalwyr ormod o bethau eraill i'w blaenoriaethu cyn darllen (89%) neu'n wynebu diffyg amser (89%).

O'n gwaith gyda llyfrgelloedd a phartneriaid blynyddoedd cynnar eraill, rydym hefyd yn ymwybodol o heriau sy'n wynebu sefydliadau a rhwydweithiau sy'n gweithio i gynorthwyo teuluoedd blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, mae naw o bob deg aelod o staff llyfrgelloedd yn poeni am ddiffyg ymgysylltiad teuluoedd â gwasanaethau (89%) a dywedodd 98% o staff llyfrgelloedd wrthym eu bod yn poeni am effaith torri cyllidebau.

**Ffigur 4:** Y rhwystrau sy'n atal teuluoedd rhag darllen mwy, yn ôl staff llyfrgelloedd




Sylfaen: Pob partner llyfrgell (133)

# 4. Canfyddiadau gwerthuso allweddol o Amser Stori BookTrust 2024-25

## 4.1 Cyrhaeddiad cyffredinol

**Cymerodd 2,568 o lyfrgelloedd ran yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ran yn Amser Stori BookTrust 2024-25.** Mae hyn yn cyfateb i tua 90% o lyfrgelloedd ledled Cymru, lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm o 60,000 o blant o dan bump oed wedi ymgysylltu ag Amser Stori BookTrust eleni.

**Ffigur 5:** Teuluoedd a ymgysylltodd ag Amser Stori BookTrust 24-25

O'r plant a gymerodd ran, rydym yn amcangyfrif bod:

**34%**
yn **newydd i'r llyfrgell** neu leoliad

**51%**
o aelwydydd **incwm is**

**59%**
**wedi dychwelyd i'r llyfrgell** neu leoliad ar ôl eu hymweliad cychwynnol

**38%**
wedi **ymaelodi â'r llyfrgell**

## 4.2 Gweithio partneriaeth

**Bwriedir i Amser Stori BookTrust a'n portffolio ehangach o raglenni blynyddoedd cynnar gefnogi cysylltiadau cymunedol a dulliau amlasiantaeth o ymdrin â darllen.**

Dywedodd wyth o bob deg partner Amser Stori BookTrust (83%) eu bod wedi gweithio gyda sefydliadau eraill i annog teuluoedd i ymgysylltu â'r rhaglen eleni. Gweithiodd nifer sylweddol gyda lleoliadau amlasiantaeth, gan gynnwys Hybiau Teuluol, canolfannau plant neu ganolfannau teuluol (50%), gweler Ffigur 6.

O drafodaethau gyda'n partneriaid, rydym yn gwybod bod rhaglenni BookTrust yn cefnogi strategaethau darllen a llythrennedd blynyddoedd cynnar awdurdod lleol cyfan, gan gydnabod bod darllen ar y cyd cynnar yn cefnogi canlyniadau datblygiad plant, iechyd ac addysg.

"Mae'r adnoddau wedi bod yn ddull hanfodol i'n helpu i ymgysylltu â phartner sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n wynebu heriau. Maen nhw'n ffordd ragorol i mewn wedyn i hyrwyddo ein gwasanaethau eraill."

**Llyfrgell, Gogledd-orllewin Lloegr**

Gwyliwch ein **fideo** am sut mae ein rhaglenni blynyddoedd cynnar wedi'u hymwreiddio yn y rhwydwaith Hybiau Teuluol yn Birmingham, gan gefnogi gweithio amlasiantaeth.

## 4.3 Tybiaethau partneriaid o Amser Stori BookTrust yn gyffredinol

**Roedd partneriaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn gadarnhaol am y rhaglen a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i'w gwaith a'r teuluoedd y maent yn eu cynorthwyo.**


Dywedodd saith o bob deg llyfrgell (70%) wrth fod y rhaglen yn effeithiol o ran cynorthwyo plant a theuluoedd a oedd yn newydd i'r llyfrgell, neu na fyddent yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell fel rheol, i gael profiad cadarnhaol.

O'n hanes o weithio gyda llyfrgelloedd a theuluoedd, rydym yn gwybod bod y profiadau cadarnhaol cychwynnol hyn mor hollbwysig i annog teuluoedd i ddychwelyd dro ar ôl tro.

Mae'r adborth hwn yn dangos sut mae Amser Stori BookTrust yn chwarae rhan bwysig mewn llyfrgelloedd, gan gefnogi eu gwaith gyda phlant blynyddoedd cynnar a helpu teuluoedd i sefydlu trefn darllen ar y cyd.

**Ffigur 6:** Pwy wnaeth partneriaid weithio â nhw i ymgysylltu teuluoedd ag Amser Stori BookTrust

% y partneriaid a ddywedodd eu bod yn gweithio gyda phob math o sefydliad isod:




Sylfaen: Partneriaid Amser Stori BookTrust (123). Nid oedd 17% o'r ymatebwyr wedi gweithio gyda sefydliadau eraill / atebwyd 'ddim yn gwybod'.

"Mae cynnydd gwirioneddol i fenthyg llyfrau wedyn [...] Efallai nad yw pobl wedi bod yn llyfrgell ers tua deng mlynedd, a nawr maen nhw'n benthyg llyfrau i'w teulu. Rydym ni'n gwybod o brofiad; rydym ni'n cadw'r bobl hynny fel darllenwyr am oes."

**Jacqueline Condit, Llyfrgell Glengormley, Gogledd Iwerddon. Darllenwch fwy yn yr astudiaeth achos ar ein gwefan.**

**Ffigur 7:** Safbwyntiau partneriaid llyfrgell ar Amser Stori BookTrust

% o bartneriaid llyfrgell sy'n cytuno â phob datganiad:

**87%**
Mae Amser Stori BookTrust yn bwysig i'm sefydliad

**84%**
Mae Amser Stori BookTrust wedi helpu i gefnogi gwaith fy llyfrgell gyda phlant dan bump oed

**77%**
Mae Amser Stori BookTrust yn helpu teuluoedd blynyddoedd cynnar i ddatblygu trefn darllen ar y cyd

Sylfaen: Pob partner llyfrgell sy'n defnyddio Amser Stori BookTrust (100)

Trwy ein gwaith ansoddol a thrafodaethau parhaus gyda llyfrgelloedd, rydym yn clywed gan rai partneriaid sydd â phryderon cryf am yr heriau sy'n gysylltiedig â'r ffaith fod Amser Stori BookTrust yn rhaglen wedi'i thargedu.

Rydym yn gwybod bod cyrraedd teuluoedd newydd yn cymryd amser, allgymorth a buddsoddiad mewn cysylltiadau cymunedol i gynorthwyo'r rhai nad ydynt yn draddodiadol wedi ystyried llyfrgelloedd fel mannau ar eu cyfer nhw.

Rydym yn gwybod bod llawer o'n partneriaid yn gweithio yn y ffordd hon eisoes. Mae eraill yn tynnu sylw at heriau sy'n gysylltiedig â chyrraedd teuluoedd newydd, yn enwedig o gofio ein capasiti sydd o dan bwysau a chyllidebau cyfyngedig.

Rydym yn archwilio'n weithredol sut y gallwn gryfhau Amser Stori BookTrust ymhellach i gynyddu effaith y rhaglen yn barhaus ac i gynorthwyo llyfrgelloedd a theuluoedd blynyddoedd cynnar yn well.

### 4.4 Safbwyntiau partneriaid ar ein hadnoddau digidol

**Yn rhan o'r rhaglen, mae Amser Stori BookTrust yn cynnwys adnoddau digidol ac y gellir eu lawrlwytho.** Gall staff llyfrgelloedd a phartneriaid blynyddoedd cynnar eraill hefyd gael mynediad at gyfres eang o adnoddau digidol BookTrust a chymorth.

Mae hyn yn cynnwys gweminarau, **rhestrau llyfrau**, **canllawiau ymarferwyr**, a fideos, â gwybodaeth am **fanteision darllen**, yr **ymchwil diweddaraf**, **cyngor ymarferol** a negeseuon allweddol i'r rhannu gyda phlant a theuluoedd i'w hannog i ddechrau darllen neu i ddarllen mwy. Roedd y cynnwys hwn ar gael yn ein 'Hyb Adrodd Straeon' yn flaenorol a gall partneriaid bellach ddod o hyd i'r cynnwys hwn ar wefan BookTrust.

Roedd naw o bob deg partner llyfrgell wedi defnyddio gwefan BookTrust (93%), roedd hanner wedi defnyddio'r Hyb Adrodd Straeon (49%) ac roedd hanner wedi defnyddio ein Bookfinder a'n hadolygiadau llyfrau (50%). Roedd bron pawb a ddefnyddiodd yr adnoddau hyn o'r farn eu bod o gymorth.

Dywedodd naw o bob deg llyfrgell bod ein cynnwys ar-lein o gymorth i'w cefnogi gyda'u gwaith gyda phlant a theuluoedd (90%).

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o'n hadnoddau ar-lein ac yn parhau i gryfhau ein cynnwys digidol. Rydym yn bwriadu rhannu mwy o gynnwys a chymorth digidol yn fuan!

**Ffigur 8:** Safbwyntiau llyfrgelloedd ar ein cynnwys digidol




Sylfaen: Partneriaid llyfrgell a oedd yn defnyddio gwefan BookTrust (124), yr Hyb Adrodd Straeon (67*), a'r Bookfinder neu adolygiadau llyfrau (66*). *Gofal, mae maint y sylfaen yn llai na 100.

# 5. Beth nesaf i Amser Stori BookTrust?

**Mae Amser Stori BookTrust yn dal i fod yn rhan allweddol o'n portffolio blynyddoedd cynnar o raglenni wrth i ni gychwyn cyfnod ein strategaeth nesaf.**

Mae BookTrust wedi ymrwymo i ddysgu a datblygiad parhaus ein gwaith i gryfhau ein cymorth i deuluoedd a'n partneriaid. Mae adborth partneriaid yn chwarae rhan hanfodol i lunio ein gwaith.

Rydym yn adolygu'r rhaglen gyda'r nod o ailwampio Amser Stori BookTrust cyn ei ddarparu yn hydref 2026, ac rydym yn dymuno dod ag Amser Stori BookTrust Cymru i fwy o blant a theuluoedd yng Nghymru.

Rydym yn amlinellu isod rhai o'r newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud yn seiliedig ar adborth gan ein partneriaid.



**"Mae'n anodd iawn i ni ddenu pobl newydd i'n Hamseroedd Stori gan mai dim ond ein platfformau cyfryngau cymdeithasol, ein cylchlythyrau a'n partneriaid sydd gennym ni i hysbysebu â nhw – felly mae mwyafrif y bobl y mae ein hysbysebion yn eu cyrraedd yn defnyddio'r llyfrgell eisoes."**

**Llyfrgell, De-ddwyrain Lloegr**

## Detholiad llyfrau

Ar y cyfan, roedd y llyfrgelloedd a gymerodd ran yn gadarnhaol iawn am y detholiad o lyfrau Amser Stori BookTrust, gyda sawl un yn dweud bod y detholiad yn well nag mewn blynyddoedd blaenorol. Clywsom hefyd nad oedd y detholiad yn diwallu anghenion nifer fach o lyfrgelloedd yn llawn: gofynnodd rai am fwy o lyfrau ar gyfer plant hŷn, ac roedd eraill eisiau mwy ar gyfer plant iau, gan eu bod yn gweld mwy o deuluoedd â phlant ifanc iawn yn cymryd rhan yn Amser Stori BookTrust.

## Pleidleisio ar gyfer y Wobr Amser Stori

Mae llawer o bartneriaid llyfrgell wrth eu boddau gyda'r daflen bleidleisio ac yn dweud ei bod yn helpu i annog teuluoedd i gymryd rhan a dychwelyd bob wythnos. Rydym hefyd wedi clywed gan rai staff llyfrgelloedd nad yw plant ifanc bob amser yn deall yr hyn y maent yn pleidleisio drosto ac nad yw bob amser yn eglur sut mae pleidleisio teuluoedd ac ar-lein yn cyd-fynd â'i gilydd.

Byddwn yn rhannu mwy o straeon ac astudiaethau achos gan lyfrgelloedd ar ein gwefan ac mewn gweminarau, gan drafod sut maent yn defnyddio pleidleisio gyda theuluoedd yn eu cymunedau. Byddwn hefyd yn adolygu ein canllawiau pleidleisio ar gyfer y Wobr Amser Stori (a anfonir i lyfrgelloedd) i weld sut y gallwn eu gwneud yn fwy eglur.

## Annog teuluoedd i mewn i'r llyfrgell

Mae rhai llyfrgelloedd yn ei chael yn anodd nodi teuluoedd nad ydynt eisoes yn gyfarwydd â'r gwasanaeth llyfrgell. Hoffai eraill fwy o asedau i helpu i ddod â theuluoedd newydd i'r llyfrgell ac i hysbysebu Amser Stori BookTrust.

Mae gennym amrywiaeth o adnoddau digidol ar gael ar ein gwefan i'w lawrlwytho, gan gynnwys gwahanol bosteri ac asedau cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn archwilio sut y gallwn wella ein hamrywiaeth o dempledi cyfathrebu, a byddwn yn parhau i gynnull partneriaid llyfrgell i rannu heriau, atebion ac arferion gorau o ran cyrraedd teuluoedd newydd.

## Adnoddau ychwanegol

Mae partneriaid wedi gofyn am fwy o syniadau ar gyfer gweithgareddau yn gysylltiedig â'r llyfrau, a gweithgareddau sy'n addas ar gyfer y plant ieuengaf yn arbennig. Rydym hefyd wedi clywed yr hoffai partneriaid llyfrgell arfau i gynorthwyo a'u gwerthusiadau eu hunain o'r rhaglen a'i heffaith ar nifer yr ymwelwyr a chysylltiadau â sefydliadau cymunedol eraill.

## Adnoddau ychwanegol

Rydym yn dymuno parhau i ddysgu gyda llyfrgelloedd a theuluoedd i wella Amser Stori BookTrust ac i ddeall ymhellach sut y gall weithio orau gyda'n rhaglenni blynyddoedd cynnar eraill i greu'r effaith fwyaf i bartneriaid a theuluoedd.

Byddwn yn parhau i rannu gwaith ymchwil newydd ar ddarllen yn y blynyddoedd cynnar gyda'n holl bartneriaid. Byddwn hefyd yn rhannu gwaith ymchwil a gwerthuso gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn llunio polisi yn lleol ac yn genedlaethol i godi ymhellach ymwybyddiaeth o ddarllen yn y blynyddoedd cynnar, y rhan hanfodol y mae llyfrgelloedd a phartneriaid blynyddoedd cynnar yn ei chwarae, ac anghenion a phrofiadau teuluoedd a'n partneriaid blynyddoedd cynnar.

**Mae BookTrust yn edrych ymlaen at weithio gyda llyfrgelloedd a phartneriaid blynyddoedd cynnar eraill ar Amser Stori BookTrust y flwyddyn nesaf, a thu hwnt!**




"Roedd plant wrth eu boddau yn rhannu'r llyfrau yn ystod Amser Stori ac yn casglu'r sticeri ar gyfer eu llyfryn bach. Roedden nhw wrth eu boddau yn cymryd rhan trwy bleidleisio."

**Llyfrgell, De-ddwyrain Lloegr**

"Nid yw'r system bleidleisio yn gweithio'n dda iawn gyda'r grŵp oed hwn."

**Llyfrgell, Swydd Efrog a Humber**

"Roedd y llyfrau yn llawer mwy priodol ar gyfer y grŵp oed yr oedden nhw ar eu cyfer eleni. Mae'n gwneud fy ngwaith i'n llawer haws pan fo'r llyfrau yn lliwgar, yn rhyngweithiol ac yn hwyl i ddarparu'r sesiwn a chynnwys y plant a'r oedolion."

**Llyfrgell, Dwyrain Lloegr**

"Nid oes gan rai o'r llyfrau ddigon o stori i ddifyrru grŵp y mae'n cael ei ddarllen iddyn nhw. Gallai llyfrau bwrdd byr â mwy o stori fod o gymorth."

**Llyfrgell, De-ddwyrain Lloegr**

# 6. Ein dull dysgu

**Mae BookTrust yn cynnal gwerthusiadau o'i raglenni blynyddoedd cynnar yn rheolaidd, gan wahodd adborth gan deuluoedd a phartneriaid.**

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio canlyniadau o'n Harolwg Partneriaid BookTrust diweddaraf. Cyflawnodd 668 o'n partneriaid blynyddoedd cynnar yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yr arolwg rhwng Chwefror a Mai 2025. Mae ein partneriaid blynyddoedd cynnar yn cynnwys llyfrgelloedd, lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar, gweithwyr iechyd blynyddoedd cynnar proffesiynol, canolfannau plant, Hybiau Teuluol, ysgolion cynradd yng Nghymru, a llawer mwy.

Mae mwyafrif y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau gan bartneriaid llyfrgell a lleoliadau eraill a gymerodd ran yn Amser Stori BookTrust 24-25 (123). Mae 82% o'r partneriaid hyn yn gweithio mewn llyfrgelloedd, 19% mewn lleoliadau eraill, ac roedd 48% yn Gydgysylltwyr Bookstart.

Gyda 123 o ymatebion, gallwn ddod i gasgliadau cryf, er bod cyfyngiadau yn parhau o gofio cwmpas cenedlaethol a phoblogaeth llyfrgelloedd amrywiol y rhaglen. Rydym yn cydnabod bod amcanestyniadau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys rhywfaint o amcangyfrif.

### Ymchwil yn BookTrust

Mae ein holl ddysgu wedi'i lywio gan ein **Damcaniaeth o Newid** ac wedi'i gefnogi gan ein **Grŵp Trosolwg ar Ddysgu**. Mae teuluoedd a phartneriaid yn ganolog i'n gwaith ac yn 2024/25 fe wnaethom gasglu gwybodaeth gan fwy na 1,000 o deuluoedd a 1,000 o bartneriaid.

Gweler ein papurau briffio diweddaraf ar ddarllen yn y blynyddoedd cynnar, er enghraifft:

- **Pam mae dechrau darllen ar y cyd yn bwysig**
- **Arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar**
- **Cefnogi cylchoedd o genhedlaeth i genhedlaeth o ddarllenwyr**

**Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am ymchwil, arloesedd ac effaith yn BookTrust.**



# 7. Cyfeiriadau


[1] Mae 31% o blant yn byw ar aelwydydd incwm isel (y lefel uchaf ers 1994-95). **Households Below Average Income**, FYE 2024 (2025), Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

[2] Arolwg Teuluoedd BookTrust (2022), arolwg ar-lein o 2,148 o rieni/gofalwyr plant 0-7 oed o aelwydydd incwm isel ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gweler **Reading Together** i gael rhagor o wybodaeth.

[3] Lindorff, A., Stiff, J. a Kayton, H. (2024) PIRLS 2021: National Report for England. Yr Adran Addysg.

[4] Arolwg Teuluoedd BookTrust (2022), arolwg ar-lein o 2,148 o rieni/gofalwyr plant 0-7 oed o aelwydydd incwm isel ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gweler Reading Together i gael rhagor o wybodaeth.

[5] Aelwydydd ag incwm sydd 60% yn is na'r canolrif cenedlaethol (ffynhonnell: **Households Below Average Income dataset**, Yr Adran Gwaith a Phensiynau).

[6] Mae 31% o blant yn byw ar aelwydydd incwm isel (y lefel uchaf ers 1994-95). **Households Below Average Income**, FYE 2024 (2025), Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

[7] JRF (2013) Does money affect children's outcomes? Ar gael **ar-lein**.

[8] Farquharson, C., McNally, S., Tahir, I. (2022). Lack of progress on closing educational inequalities disadvantaging millions. Adolygiad Deaton yr IFS

[9] Arolwg Teuluoedd BookTrust (2022), arolwg ar-lein o 2,148 o rieni/gofalwyr plant 0-7 oed o aelwydydd incwm isel ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

[10] McGeown, S., Johnston, R.S., Walker, J., Howatson, K., Stockburn, A., a Dufton, P. (2015). The relationship between young children's enjoyment of learning to read, reading attitudes, confidence and attainment.

Educational Research, 57, 389 – 402; Cremin, T. (2014). Reading for pleasure and reader engagement: Reviewing the research; Gambrell, L. B. (2015).

Getting Students Hooked on the Reading Habit. The Reading Teacher, 69(3), 259–263; Guthrie, J. T., a Wigfield, A. (2000). Engagement and motivation in reading. Yn M. L. Kamil, P.

B. Mosenthal, P. D. Pearson, a R. Barr (Golygyddion), Handbook of reading research, Vol. 3, paragraffau 403–422). Lawrence Erlbaum Associates Publishers.

[11] Arolwg Teuluoedd BookTrust (2022), arolwg ar-lein o 2,148 o rieni/gofalwyr plant 0-7 oed o aelwydydd incwm isel ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gweler ein papur briffio **Darllen plant ysgol gynradd** i gael rhagor o wybodaeth.

Lindorff, A., Stiff, J. a Kayton, H. (2024) PIRLS 2021: National Report for England. Yr Adran Addysg.





"Mae BookTrust a'r gwaith, yr adnoddau ac ansawdd cyson y ddau wedi bod yn hynod werthfawr i mi fel gweithiwr blynyddoedd cynnar ac fel Llyfrgellydd Plant nawr."

**Llyfrgell, Llundain Fwyaf**